# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[R] signifies that the Member has declared an interest.
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*
[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid
## Questions to the Finance Minister

### Cyllido Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad
### Funding of Assembly Sponsored Public Bodies

**Q11 Mick Bates:** Will the Minister make a statement on the funding of Assembly sponsored public bodies? OAQ0540(FIN)

**C11 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllido cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad? OAQ0540(FIN)

**The Finance Minister (Sue Essex):** The funding levels of Assembly sponsored public bodies are the responsibility of sponsor departments and the relevant portfolio Minister.

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Yr adrannau sy'n noddi a'r Gweinidog sydd â'r portffolio perthnasol sy'n gyfrifol am lefelau cyllido'r cyrff cyhoeddus sy'n cael eu noddi gan y Cynulliad.

*Tynnwyd cwestiwn 12, OAQ0567(FIN), yn ôl.*
*Question 12, OAQ0567(FIN), has been withdrawn.*

### Casglu Data'r Cyfrifiad
### Collection of Census Data

**Q13 William Graham:** Will the Minister outline the measures promoted by the Welsh Assembly Government to ensure a more effective collection of census data in Wales in 2011? OAQ0538(FIN)

**C13 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r camau a hyrwyddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau y bydd data'r cyfrifiad yn cael ei gasglu'n fwy effeithiol yng Nghymru yn 2011? OAQ0538(FIN)

**Sue Essex:** The Welsh Assembly Government is represented at all levels of Office for National Statistics census governance (project boards and working groups). The ONS census director has recently visited a number of Assembly committees. Discussions are ongoing to ensure that the Assembly is given a more formal role in agreeing the content and conduct of the next census.

**Sue Essex:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cael ei chynrychioli ar bob lefel o lywodraethu cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol (byrddau prosiect a grwpiau gwaith). Yn ddiweddar, ymwelodd cyfarwyddwr cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol â nifer o bwyllgorau'r Cynulliad. Mae trafodaethau ar y gweill i sicrhau rhoi i'r Cynulliad swyddogaeth fwy ffurfiol wrth gytuno ar gynnwys y cyfrifiad nesaf a'i weithredu.

### Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad
### Assembly Sponsored Public Bodies

**Q14 William Graham:** Will the Minister

**C14 William Graham:** A wnaiff y

make a statement on the budget for Assembly sponsored public bodies? OAQ0539(FIN)

Gweinidog ddatganiad am y gyllideb ar gyfer cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad? OAQ0539(FIN)

**Sue Essex:** The budgets for Assembly sponsored public bodies are the responsibility of sponsor departments and the relevant portfolio Minister.

**Sue Essex:** Yr adrannau sy'n noddi a'r Gweinidog sydd â'r portffolio perthnasol sy'n gyfrifol am gyllidebau'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad.

**Prosiectau'r Gronfa Gydgyfeirio**
**Convergence Fund Projects**

**Q15 Janet Davies:** Will the Minister make a statement on the impact that match funding for convergence fund projects will have on the Welsh Assembly Government budget as a whole? OAQ0563(FIN)

**C15 Janet Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr effaith y bydd cyllid cyfatebol ar gyfer prosiectau'r gronfa gydgyfeirio yn ei chael ar gyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei chyfanrwydd? OAQ0563(FIN)

**Sue Essex:** We expect to maximise the use of our own programme resources as match funding. The different structure of the next programme should provide opportunities for new and innovative ways of match funding and co-financing that will streamline processes and reduce bureaucracy.

**Sue Essex:** Yr ydym yn disgwyl defnyddio adnoddau'n rhaglen ein hunain i'r eithaf fel cyllid cyfatebol. Dylai ffurf wahanol y rhaglen nesaf gynnig cyfleoedd i gyllido yn gyfatebol a chydariannu mewn modd newydd a dyfeisgar fydd yn mireinio dulliau gweithredu ac yn lleihau biwrocratiaeth.